Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Y CYNGOR

ANGHYFYNGEDIG Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 10.00 a.m. ddydd Iau 2 Gorffennaf 2026 yng Nghanolfan Dylan Thomas, Abertawe

Aelodau Cyngor PCYDDS a PC:
Emlyn Dole (Cadeirydd)
Yr Athro Elwen Evans CB (Is-Ganghellor)
Timothy Llewelyn
Nigel Roberts

Yn gweinyddu:
Sarah Clark, Ysgrifennydd y Brifysgol a Chlerc i'r Cynghorau
Sarah Evans, Prif Swyddog Cyllid
Sharon Lusher, Pro Is-Ganghellor (AB)
Peter Mannion, Prif Swyddog Gweithredu
Dr Chris Marshall, Pennaeth Staff
Yr Athro Conny Matera-Rogers, Pro Is-Ganghellor (Rhyngwladol)
Jane O'Rourke, Prif Swyddog Pobl
Yr Athro Mirjam Plantinga, Pro Is-Ganghellor (Addysg)
Lynwen Davies (Cyfieithydd)
Margaret Williams, Ysgrifennydd

Aelodau Cyngor PC:
Dr Stuart Robb
Deris Williams

Aelodau Cyngor PCYDDS:
Richard Bills
Jonathan Chitty
Dr Tracy Cruickshank
Gwyneira Davies
Yr Athro Kyle Erickson
Jacqui Kedward
Rowland Jones
Chris Martin
Richard Norton
Jonathan Pugh
Harriet Ross
Katrin Shaw

Cofnod	Prif bwyntiau trafod
26.45 Ymddiheuriadau	Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan yr aelodau Dr Elizabeth Siberry, Emlyn Schiavone, Iwan Thomas, a chan y swyddog Vanessa Cashmore.

Cofnod	Prif bwyntiau trafod
26.46 Datganiadau o Fuddiannau	DERBYNIODD y Cyngor y Datganiadau o Fuddiannau a nodwyd yn adroddiad y Clerc (JC0513).
26.47 Penodi Is-gadeirydd	NODODD y Cyngor, yn dilyn yr alwad am enwebiadau, fod Timothy Llewelyn wedi'i ethol yn ddiwrthwynebiad i wasanaethu'n Is-gadeirydd Cyngor PC a PCYDDS rhwng 1 Awst 2026 a 31 Gorffennaf 2030 (JCO514).
26.48 Adroddiad y Cadeirydd	DERBYNIODD y Cyngor adroddiad y Cadeirydd (JCO515). Y Cadeirydd: (a) croesawodd Harriett Ross, aelod newydd o'r Cyngor a llongyfarchodd Gwyneira Davies ar ei hail-ethol i wasanaethu am yr ail flwyddyn. Llongyfarchodd hefyd Jennifer Taylor a gafodd ei hethol yn Llywydd UCM Cymru; (b) cadarnhaodd benodiad Laura Toscano yn aelod annibynnol o Gyngor PCYDDS. Byddai'n ymuno â'r Cyngor o 1 Awst 2026 ymlaen; (c) cydnabu wasanaeth Dr Elizabeth Siberry i Gynghorau PCYDDS a PC. Diolchodd iddi am ei gwasanaeth i'r Cynghorau ac am ei harweinyddiaeth eithriadol ac unigryw o'r Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu a'r Pwyllgor Taliadau. Byddai'n parhau i gynnal cysylltiad â'r Brifysgol yn sgil ei phenodiad diweddar yn Gadeirydd Pwyllgor Cynghori Gwasg PC; (d) diolchodd i Rowland Jones am ei wasanaeth i Gyngor PCYDDS yn arbennig gan ddiolch iddo am ei gadeiryddiaeth, ei arweinyddiaeth a'i arbenigedd mewn perthynas â Phwyllgorau'r PAPh ac Ystadau; (e) diolchodd i Deris Williams am ei chyfraniad i Gyngor PC a'r Senedd a'r defnydd o'r Gymraeg ar draws y Brifysgol; (f) diolchodd i Geraint Roberts, a oedd wedi ymddiswyddo ddiwedd mis Mawrth, am ei arweinyddiaeth a'i waith ar y Pwyllgor Academaidd a Bwrdd CSG; (g) hysbysodd aelodau o ymddiswyddiad yr Athro Kyle Erickson yn aelod o staff. Roedd proses ar waith i ethol ei olynydd;

Cofnod	Prif bwyntiau trafod
	(h) cyfeiriodd at y Cod CUC newydd a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2026, a oedd wedi'i ddosbarthu i aelodau. Byddai'r Cyngor yn ystyried y Cod yn ei gyfarfod ym mis Medi.
26.49 Adroddiad yr Is-Ganghellor	DERBYNIODD y Cyngor adroddiad yr Is-Ganghellor (JCO516). Tynnodd yr Is-Ganghellor sylw at: (a) yr heriau sy'n wynebu'r sector addysg uwch yng Nghymru, a thrafodaethau parhaus rhwng sefydliadau a Medr, gan nodi bod y Brifysgol mewn sefyllfa dda i gyfrannu at ffurf addysg drydyddol yng Nghymru yn y dyfodol; (b) cyfarfod yn y dyfodol rhwng Cadeiryddion ac Is-gangellorion Prifysgolion i ystyried cyfleoedd strategol ar gyfer cydweithio ledled Cymru; (c) gwaith sy'n parhau ar Sefydliadau Technegol Prifysgol Cymru, gan nodi bod yr holl gyfranogwyr wedi ailddatgan eu hymrwymiad yn ddiweddar i adeiladu perthnasoedd o amgylch cwricwlwm sy'n canolbwyntio ar gyflogwyr, cynorthwyo dysgwyr i gyflawni yn y pwnc a ddymunant, ac ychwanegu gwerth trwy fenter ac arloesi; (d) llwyddiant wrth sicrhau cyllid gan Innovate UK i sefydlu Hwb Mabwysiadu Roboteg rhanbarthol yn rhan o raglen ledled y DU a gynlluniwyd i gyflymu'r broses o ddiweddaru roboteg a systemau ymreolaethol. Ymatebodd yr Is-Ganghellor i ymholiadau ynglŷn â datblygiadau ar gampws Llambed, gan nodi cynnydd sylweddol dan arweiniad y Pro Is-Ganghellor (Addysg Bellach) ar ddatblygu cwricwlwm sgiliau rhanbarthol ochr yn ochr â digwyddiadau cynadledda llwyddiannus diweddar.
26.50 Adroddiad Undeb y Myfyrwyr	DERBYNIODD y Cyngor adroddiad Undeb y Myfyrwyr (JCO517). Crynhodd Llywydd Undeb y Myfyrwyr yr adroddiad gan ddarparu gwybodaeth am: (a) flaenoriaethau diweddar i ategu'r gwaith o gadw a datblygu'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn academaidd sydd i ddod;

Cofnod	Prif bwyntiau trafod
	(b) canlyniadau etholiadau diweddar ar gyfer pob campws, gan nodi bod Llywydd y Grŵp wedi dewis peidio â derbyn y swydd; (c) llwyddiant diweddar ar gyfer Ymgyrch Myfyrwyr Ragorol yng Ngwobrau UCM Cymru 2026. Cyfeiriodd Llywydd y Myfyrwyr at etholiadau diweddar a nododd i nifer da iawn bleidleisio ar draws pob campws. Wrth ymateb i gwestiynau'r aelodau ynglŷn ag etholiad Llywydd y Grŵp, adroddodd y Prif Swyddog Gweithredu fod adolygiad o Erthyglau'r UM wedi'i gynllunio i alluogi, yn y dyfodol, y person a etholwyd yn ail i gymryd swydd Llywydd y Grŵp pe bai'r ymgeisydd etholedig llwyddiannus yn ymddiswyddo. Canmolodd y Cyngor waith Undeb y Myfyrwyr a dymuno'n dda i'r Llywyddion campws sydd newydd eu hethol yn ystod eu blwyddyn yn y swydd.
26.51 Adroddiad Pwyllgor y PAR	DERBYNIODD y Cyngor adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd ar 18 Mai 2026 (JCO518). Wrth gyflwyno'r adroddiad, tynnodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg sylw'r aelodau yn benodol at: (a) ddiwygiadau arfaethedig i'r ddogfen olrhain ar gyfer camau archwilio; (b) dwy risg uwch a gofnodwyd yn y Gofrestr Risg gan fonitro'n fanwl ddwy egin risg; (c) cynnig y mae'r Prif Swyddog Ariannol (PSA) yn ei baratoi sy'n amlinellu fframwaith ar gyfer yr ymarfer tendro a fydd yn cwmpasu gwasanaethau Archwilio Mewnol ac Allanol. DERBYNIODD y Cyngor: (a) Y Gofrestr Risg Gorfforaethol (JCO537); ac (b) Adroddiad Blynyddol Chwythu'r Chwiban (JCO538).
26.52 Adroddiad Pwyllgor y PELl	DERBYNIODD y Cyngor adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu a gynhaliwyd ar 25 Mawrth 2026 a 1 Mehefin 2026 (JCO519).

Cofnod	Prif bwyntiau trafod
	Wrth gyflwyno'r adroddiad, cydnabu'r Is-gadeirydd wasanaeth Dr Elizabeth Siberry a'i harweinyddiaeth ragorol a'i dull arbennig o gadeirio'r PELl. Cyfeiriodd yr Is-gadeirydd at: (a) gynnydd cais y Brifysgol i gofrestru gyda Medr; (b) diwygiadau arfaethedig i strwythur y pwyllgor, cylch gorchwyl ac aelodaeth diwygiedig mewn ymateb i'r Adolygiad o Effeithiolrwydd Llywodraethu; (c) asesu sgiliau a Chynllun Datblygu a Chadw'r Cyngor; (d) adolygiad parhaus o Ordinhadau PCYDDS. DERBYNIODD y Cyngor: (a) ddiweddariad ynghylch cynllun gweithredu'r Adolygiad o Effeithiolrwydd Llywodraethu (JCO539); (b) Cynllun Datblygu a Chadw'r Cyngor wedi'i ddiweddaru (JCO542). CYMERADWYODD y Cyngor: (a) cylch gorchwyl Pwyllgorau Sefydlog y Cyngor 2026/27 (JCO540); (b) parhad y protocol ar y defnydd o gyfieithu a chyfarfodydd ar-lein/hybrid (JCO541); (c) newidiadau yn yr Ordinhadau (JCO543). Canmolodd yr Is-gadeirydd waith y tîm Llywodraethu a diolchodd i swyddogion, dan arweiniad y Clerc, am eu gwaith wrth baratoi a chyflwyno'n gynnar gais y Brifysgol i gofrestru gyda Medr.
26.53 Adroddiad y Pwyllgor Taliadau	DERBYNIODD y Cyngor adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Taliadau a gynhaliwyd ar 15 Mehefin 2026 (busnes anghyfyngedig; JCO520).

Cofnod	Prif bwyntiau trafod
	CYMERADWYODD y Cyngor Ddatganiad Polisi Cyflog Blynyddol 2024-25 (JCO544).
26.54 Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Taliadau	DERBYNIODD y Cyngor Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Taliadau (JCO521).
26.55 Adroddiad Pwyllgor y PAPh	DERBYNIODD y Cyngor adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad a gynhaliwyd ar 27 Ebrill 2026 (JCO522a).
26.56 Y Senedd	DERBYNIODD y Cyngor adroddiad cyfarfod y Senedd a gynhaliwyd ar 10 Mehefin 2026 (JCO524). CYMERADWYODD y Cyngor: (a) Strategaeth y Gymraeg 2026-30 (JCO550); (b) Argymhellion y Senedd ar gyfer dyfarnu teitl Athro Ymarfer Anrhydeddus (JCO525).
26.57 Cofnodion	CYMERADWYODD y Cyngor gofnodion: (a) Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 19 Mawrth 2026 (JCO526b); (b) Cyfarfod cyfyngedig y Cyngor a gynhaliwyd ar 19 Mawrth 2026 (JCO526c); (c) Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 12 Mehefin 2026 (JCO526d);
25.58 UM: Cod Ymarfer y Cyngor 2026/27	CYMERADWYODD y Cyngor Undeb y Myfyrwyr: Cod Ymarfer y Cyngor 2026/27 (JCO527).
25.59 Canlyniadau etholiad UM	DERBYNIODD y Cyngor yr adroddiad ar ganlyniadau etholiad Undeb y Myfyrwyr gyda chadarnhad o'r broses briodol (JCO528).
26.60 Cam Gweithredu'r Cadeirydd	DERBYNIODD y Cyngor yr adroddiad ar Gam Gweithredu'r Cadeirydd (JCO530).
26.61 Sêl y Brifysgol	DERBYNIODD y Cyngor yr adroddiad ar y defnydd o'r Sêl (JCO531a).

Cofnod	Prif bwyntiau trafod
26.62 Datganiadau o Fuddiannau	Ni fu unrhyw ddatganiadau buddiant ychwanegol yn ystod y cyfarfod.
26.63 Dyddiad y cyfarfod nesaf	Byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 15 Medi 2026 yng Nghaerfyrddin.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.55 p.m.